GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

MANYLEB Y PERSON

TEITL Y SWYDD	Rôl Cefnogi'r Tîm Chwilio ac Achub Rhyngwladol (ISAR)	
LLEOLIAD	Canolfan Rhagoriaeth Hyfforddi Earlswood SA10 6NG	
RHIF Y SWYDD		
GRADD	Diffoddwr(aig) Tân Cymwys	
ADRAN	Ymateb	
GWIRIAD DBS	Manwl	

Sicrhewch eich bod yn rhoi sylw i bob un o'r gofynion canlynol yn eich Ffurflen Gais, gan y byddant yn cael eu defnyddio i lunio rhestr fer. Dylech gynnwys tystiolaeth glir sy'n dangos eich bod yn bodloni pob maes, yn seiliedig ar eich sgiliau, eich gwybodaeth, eich profiad a'ch galluoedd sy'n berthnasol i'r swydd.

Ffactor	**Tystiolaeth**	**Hanfodol/ Dymunol**	**Dull Asesu**
Gwybodaeth	Dealltwriaeth gadarn o strwythurau, gweithdrefnau a gofynion gweithredol UKISAR.	**Hanfodol***	**Ffurflen gais a Chyfweliad**
	Gwybodaeth am egwyddorion, safonau a threfniadau adleoli INSARAG.	**Hanfodol***	
	Dealltwriaeth o'r gofynion logistaidd, gweinyddol a llywodraethol sy'n gysylltiedig â chynnal ymateb arbenigol y gellir ei ddefnyddio yn y maes.	**Hanfodol***	
	Gwybodaeth am ystyriaethau iechyd, diogelwch a lles sy'n ymwneud â gweithrediadau achub arbenigol.	**Hanfodol***	

Profiad	Profiad helaeth o weithio o fewn gallu Chwilio ac Achub Rhyngwladol (ISAR) y DU. Tystiolaeth o brofiad yn cefnogi neu'n cymryd rhan mewn hyfforddiant, ymarferion a gweithgareddau gweithredol ISAR. Profiad o gynnal parodrwydd gweithredol o fewn amgylchedd ymateb arbenigol. Profiad o weithio gydag offer achub arbenigol, cerbydau ac adnoddau gweithredol. Profiad blaenorol o gael eich adleoli ar weithrediadau ISAR cenedlaethol a/neu ryngwladol. Profiad o weithio'n effeithiol o fewn timau amlddisgyblaethol mewn amgylcheddau gweithredol heriol.	**Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol***	**Ffurflen gais a chyfweliad**
Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd / Sgiliau Personol	Sgiliau trefnu a gweinyddol rhagorol, gyda'r gallu i reoli blaenoriaethau niferus ar yr un pryd. Y gallu i gadw cofnodion cywir a chynhyrchu adroddiadau, gohebiaeth a dogfennaeth weithredol. Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf, gyda'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid. Y gallu i weithio'n annibynnol gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth yn ogystal â'r gallu i weithio fel aelod o dîm. Medrusrwydd wrth ddefnyddio cymwysiadau Microsoft 365, gan gynnwys Outlook, Word, Excel a Teams. Y gallu i nodi problemau, cynnig atebion a chyfrannu at weithgareddau gwella parhaus. Y gallu i gynnal cyfrinachedd a thrin gwybodaeth sensitif yn briodol.	**Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol***	**Ffurflen gais a Chyfweliad**

Gofynion Gweithredol	Mae'n rhaid gallu dangos cymhwysedd gweithredol parhaus sy'n briodol i'w rôl barhaol. Mae'n rhaid i chi fod â'r gallu a'r parodrwydd i deithio ledled y DU ac yn rhyngwladol ar fyr rybudd. Mae'n rhaid bod ar gael i fynd i ymarferion cenedlaethol a rhyngwladol, digwyddiadau hyfforddi ac adleoliadau gweithredol, gan gynnwys aros dros nos pan fo angen. Mae'n rhaid gallu bodloni'r gofynion meddygol a ffitrwydd, yn ogystal â'r gofynion eraill ar gyfer adleoliadau, sy'n angenrheidiol ar gyfer cymryd rhan yng ngweithgareddau UKISAR. Mae'n rhaid eich bod yn meddu ar drwydded yrru lawn a chyfredol yn y DU.	**Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol*** **Hanfodol***	**Ffurflen gais a Chyfweliad**
Arall	Mae'n rhaid eich bod yn meddu ar drwydded yrru lawn a chyfredol yn y DU.	**Hanfodol***	**Ffurflen gais a Chyfweliad**